

Brig y Goeden



FFION a'r draenogod

JOHN COLDWELL



FFLON a'r draenogod

JOHN COLDWELL

Lluniau gan Caroline Crossland



DRAKE

Mr Defis Diflas



Roedd ei mam yn y gegin pan ruthrodd Ffion i mewn.

“Sut roedd yr ysgol?” gofynnodd Mrs Harris, gan ddisgwyl yr ateb arferol, “Iawn”.

“Grêt,” atebodd Ffion. “Daeth gwraig mewn i roi sgwrs inni am fywyd gwyllt a dangosodd hi ddraenog inni. Rwy’n mynd i fod yn arbenigwr ar ddraenogod.”

“Yn beth?” gofynnodd Mrs Harris.




Roedd y llyfrgell bron yn wag pan gyrhaeddodd Ffion. Edrychodd ar hyd y silffoedd, gan obeithio dod o hyd i lyfr ar ddraenogod.

“Beth rwyt ti’n ei wneud?” arthiodd rhywun y tu ôl iddi.

Bu ond y dim i Ffion neidio o’i chroen. Mr Defis oedd yno.

“Roeddwn i’n chwilio am lyfr am anifeiliaid.”



“Yn arbenigwr ar ddraenogod. Rhywun sy’n gwybod popeth am ddraenogod.”

“Go dda ti,” meddai Mrs Harris. “Bydd gofyn iti fynd i’r llyfrgell i chwilio am lyfrau.”

“O diar,” ochneidiodd Ffion. “Bydd yn rhaid imi weld Mr Defis.”

Mr Defis oedd y llyfrgellydd plant. Dyn diflas a chrintachlyd oedd e. Ac roedd yn byw drws nesaf i Ffion.

“Anifeiliaid yn wir,” snwffiodd Mr Defis. “Pa fath o anifeiliaid? Anifeiliaid dof? Anifeiliaid gwyllt? Anifeiliaid o Affrica? India? Prydain?”

“Draenogod,” meddai Ffion.

“Draenogod!” poerodd Mr Defis. “Y math gwaethaf o anifail sy’n bod. Maen nhw’n cloddio llysiâu ac yn cnoi darnau mawr allan ohonyn nhw.”



Tynnodd lyfr o’r silffoedd.

“Os oes rhaid iti astudio’r fath bethau ych a fi, dyma’r gorau y gallaf fi ei gynnig.”

“Diolch,” atebodd Ffion yn gwrtais.

“Cofia ddod ag e ’nôl mewn da bryd. A phaid ti â meiddio dod â draenogod i mewn i’th ardd. Mae dy ardd di drws nesaf i f’un i, cofia. Os gwela i ddraenog yn agos at fy moron, oes gen ti syniad beth wna i?”

“Nac oes,” meddai Ffion.

“Tasgu dŵr drosto fe â’m gwn chwistrellu.”



Gartref, darllenodd Ffion y llyfr ar ddraenogod. Dysgodd eu bod yn bwyta gwlythenni a malwod. Doedd dim sôn am lysiau.

Y bore canlynol, aeth â'r llyfr yn ôl i'r llyfrgell.

"Beth yw ystyr hyn?" gofynnodd Mr Defis.

"Dydi'r llyfr hwn ddim i fod 'nôl am wyth diwrnod ar hugain."

"Ond rwy wedi ei ddarllen," eglurodd Ffion.

"Oes 'da chi lyfrau eraill am ddraenogod?"



"Draw fan'na," meddai Mr Defis yn swrth, gan bwyntio â'i drwyn.

Cerddodd Ffion yn araf rhwng y silffoedd. Roedd hi ar fin mentro gofyn i Mr Defis pan sylwodd hi ar rywbeth. Hen dâp casét oedd e, o'r enw 'Lleisiau'r Gwylt'. Roedd yn edrych fel petai neb wedi ei chwarae erioed.




Cymerodd Ffion y tâp o'r silff. Roedd yn rhan o set ar y synau mae anifeiliaid yn eu gwneud. Tâp rhif 12 oedd hwn a'r enw arno oedd *Draenogod*.

Gofynnodd Ffion i Mr Defis a gâi hi fenthyg y casét.

"Wrth gwrs y cei di," atebodd yn flin. "Ond mae unrhyw un sydd am wrando ar synau anifeiliaid yn ddwl pared."

Stampiodd focs y casét.

"A phaid ag anghofio ailweindio'r tâp."



Sgwrs draenog



Eisteddodd Ffion yn ei hystafell yn gwranddo ar synau'r draenogod ar ei chwaraewr stereo personol drosodd a throsodd. Ailadroddodd Ffion y synau ei hun.

"Rwy'n siarad Draenogeg," meddyliodd Ffion. "Fe hoffwn wybod beth rwy'n ei ddweud. Mewn difri, rwy angen draenog i fy helpu. Mae'n siwr fod un yn yr ardd. Os bydda i'n gwneud synau draenog, efallai y bydd yn fy nghlywed."



Rhedodd Ffion allan i'r ardd a gwneud synau draenog mor uchel ag y gallai.

Stopiodd i wrando, ond wnaeth yr un draenog ateb. Ceisiodd Ffion eto. Ond dim ond cath ddaeth i'r ardd.

“Rwy’n mynd i ddal i drïo,” meddai Ffion.
“Rwy’n siwr y galla ei wneud e.” Yna dechreuodd deimlo’n oer ac aeth i’r tŷ.

Y noson ganlynol, ceisiodd Ffion eto. Bu’n ceisio bob noson am wythnos gyfan.

“Beth rwyt ti’n ei wneud allan fan ’na?” gofynnodd Mrs Harris.

“Aros a chei di weld,” atebodd Ffion.

Gyda hynny, canodd cloch y drws. Mr Defis oedd yno. Safai yn y drws yn ei ŵn gwisgo. Sylwodd Ffion fod ei wallt yn wlyb.



“Mrs Harris,” meddai Mr Defis. “Bob nos pan rwy yn fy math rwy’n clywed sŵn. Rwy’n credu ei fod yn dod o’ch gardd.”

Chwarddodd Ffion yn slei bach.

“Sŵn?” holodd Mrs Harris.

“Rhyw fath o anifail,” atebodd Mr Defis.

“Dylech roi gwenwyn allan. Dyna’r unig ffordd i ddelio ag anifeiliaid.”




Yr eiliad y trodd Mr Defis am adre, rhuthrodd Ffion i’r ardd. “Meddyliodd Mr Defis mai anifail oeddwn i,” meddai wrthi ei hun. “Rwy am roi un cynnig arall arni.”

Penliniodd Ffion ar y ddaear a dechrau gwneud synau draenog eto.

Bron ar unwaith clywodd sŵn siffrwd ac ymlwybrodd draenog i’r lawnt.

Roedd Ffion ar ben ei digon. Gwnaeth y ddau synau snwffian a gwichian.





Yn sydyn, disgleiriodd fflachlamp yn ei llygaid.
“Beth sy’n digwydd?” mynnodd y llais. Mr
Defis oedd yno, yn ei ŵn gwisgo o hyd. Rholiodd
y draenog yn belen.

“Rwy’n cael sgwrs ’da draenog,” meddai Ffion.
“Paid â bod yn haerllug. Siarad â draenog yn
wir.”

“Esgusodwch fi -,” dechreuodd Ffion.

“A pheth arall,” torrodd Mr Defis ar ei thraws,
“hen bethau bach brwnt yw draenogod sy’n
bwyta’r holl lysiau sydd yn fy ngardd.”

“Ffwlbri!” atebodd Ffion yn flin. “Dyw
draenogod ddim yn frwnt. A dydyn nhw
ddim yn bwyta llysiau. Gwlithenni a malwod
maen nhw’n eu bwyta. Nawr, os nad oes ots ’da
chi, rown i’n siarad â draenog.”



Roedd Mr Defis wedi synnu gormod i ateb.
Safai'n gegrwth a gwyllo Ffion yn snwffian ar
bwys y draenog. Dadroliodd y draenog yn araf.

Croesodd hen olwg slei wyneb Mr Defis.

"Ers pa bryd rwyd ti wedi bod yn gwneud hyn,
'mechan i?" gofynnodd.

"Ddim erioed o'r blaen," dywedodd Ffion.

"Ond o hyn ymlaen, bydd yn digwydd bob nos."

"Hm," meddai Mr Defis. "Byddi di yma bob
nos, meddet ti."




Merch anhygoel y draenogod



Pan ddaeth Ffion adref o'r ysgol drannoeth, roedd
Mr Defis yn ei ardd flaen. Roedd yn gosod
bwrdd mawr ar y glwyd. Pan welodd e Ffion,
taflodd ei got drosto.

Roedd Ffion wedi addo dangos y draenog i'w
mam. Roedd yn tywyllu pan gamodd y ddwy i'r
ardd i weld y ffrind bach pigog.



Cyrcydodd Ffion a dechrau gwneud synau snwffian. Y tro hwn, daeth dau ddraenog ati.

“Am beth maen nhw’n siarad?” sibrydodd Mrs Harris.

“Gwlithenni.”

Daeth sŵn o’r drws nesaf. Trodd Ffion olau ei fflachlamp at y ffens. Roedd pobl yn syllu ar ei gardd hi. Roedden nhw’n gegrwth.

Camodd un person ymlaen. Mr Defis oedd e.
“Rwy wedi gwahodd ffrind neu ddau,” eglurodd. “Gobeithio nad oes ots ’da ti.”

Roedd Ffion yn teimlo’n ddig, ond teimlai’n falch hefyd – yn falch fod cynifer o bobl wedi dod i’w gweld hi. “Cewch chi wyllo. Ond plis peidiwch â siarad na chadw sŵn. A dim tynnu lluniau.”

Nodiodd y bobl.

Aeth Ffion ar ei phenliniau a snwffian eto.





Daeth tri draenog arall ati y tro hwn. Llwyddodd Ffion i ddweud wrthyn nhw nad oedd dim i boeni amdano. Roedd y bobl wedi dod i weld pa mor glyfar oedden nhw. Sgwrsiodd Ffion â'r draenogod a chwaraeon nhw â'i gilydd.

Pan oedd y draenogod wedi mynd, dechreuodd y bobl tu ôl i'r ffens guro dwylo a bloeddio hwrê. Wrth gwrs, roedden nhw am wybod beth roedd Ffion a'r draenogod yn siarad amdano.

“Buon nhw'n dweud wrtho i am eu babanod. Yna sonion nhw wrtho i pam maen nhw'n cyrlïo'n bêl. A ble mae dod o hyd i'r pryfed mwyaf blasus. O ie, a dywedon nhw ble byddan nhw'n cysgu dros y gaeaf.”

Gafaelodd Mrs Harris yn dynn yn Ffion.

“Roeddet ti'n wych,” meddai. “Dere mewn ac fe wna i ddiod boeth iti.”

“Ie, i mewn â ti,” meddai Mr Defis yn serchog. “Mae'n siwr dy fod wedi blino'n lân.”



Roedd rhywbeth rhyfedd ynglŷn â Mr Defis. Doedd e erioed wedi dweud gair caredig wrth Ffion o'r blaen. Yna clywodd hi sŵn rhyfedd. Sŵn darnau arian yn disgyn i focs oedd e.

"Roedd hynna yn werth punt o arian unrhyw un," clywodd rywun yn dweud.

"Ssh," meddai Mr Defis.

Yna cofiodd Ffion y bwrdd y bu Mr Defis yn ei osod ar ei glwyd. Pam roedd Mr Defis wedi ceisio ei guddio? Rhuthrodd Ffion i flaen y tŷ. Yna, ar y bwrdd mewn llythrennau breision gallai ddarllen:





Dewch yma yn llu i weld
Merch Anhygoel y Draenogod
Mynediad ond yn £1.00
(Te a bisgedi)



"Yr hen gena blin," meddai Ffion. Yna lledodd gwên dros ei hwyneb. "Cei di ddysgu gwers neu ddwy, Mr Defis."

Rhedodd nerth ei thraed i ardd Mr Defis. Roedd rhai o'r bobl yn dal i fwynhau paned o de a bisgedi.



Cyn i Mr Defis ei hatal, dywedodd,
“Foneddigion a boneddigesau. Mae gen i
rywbeth i’w ddweud. Mae pob ceiniog o’r hyn
rydych chi wedi ei roi heno yn mynd i’r ysbyty
arbennig sy’n gofalu am ddraenogod tost.”

Curodd pawb eu dwylo a nodio eu pennau.
Pawb ond Mr Defis. Trodd ei wyneb yn biws pert
a gwnaeth sŵn tagu isel.

“Ac nid yn unig hynny,” aeth Ffion yn ei blaen,
“ond mae Mr Defis wedi cytuno y bydd ef yn rhoi
punt o’i arian ei hun am bob punt rydych chi
wedi ei rhoi heno.”


Curodd pawb eu dwylo eto a dweud hwrê.
Trodd Mr Defis yn welw iawn. Ond
llwyddodd i wenu rywsut neu’i gilydd.

Cyn y medrai ddweud yr un gair, dywedodd Ffion, "Ac rwy'n falch i ddweud bod yr ysbyty wedi gofyn i fi fynd â'r arian atyn nhw."

Daliodd ei llaw allan. Estynnodd Mr Defis y bocs i Ffion â golwg ddiflas y tu hwnt.

Yna aeth yr olwg yn fwy diflas fyth pan aeth i'w boced i chwilio am ddau bapur decpunt.

"Tair bloedd i Mr Defis," meddai Ffion.



Ond nid dyna ddiwedd y stori. Teimlai Ffion braidd yn flin dros Mr Defis.

Wedi iddi anfon yr arian i ysbyty'r draenogod, gofynnodd i'r draenogod gadw llygad ar ardd Mr Defis. Gofynnodd iddyn nhw wneud yn siwr na fyddai'r un o'i lysiau yn cael ei fwyta gan wlithenni.

Rhai wythnosau'n ddiweddarach, enillodd Mr Defis y drydedd wobr am ei bwmpenni, ei ffa dringo a'i foron yn y sioe leol.





Y noson honno, pwysodd e dros y ffens i ddangos ei dair gwobr i Ffion.

“Ac i’r draenogod mae’r diolch am y cyfan,” eglurodd. “Petawn i ond yn gwybod ynghynt mor ddefnyddiol maen nhw. Rwy wedi prynu anrheg iddyn nhw.”

Cynigiodd un tun o fwyd ci iddi.

“Rwy wedi cael llyfrau newydd am ddraenogod yn y llyfrgell. Rwy’n deall eu bod yn dotio at fwyd ci,” eglurodd.

Daeth criw o ddraenogod i fwynhau’r wledd. Cyrtydodd Ffion yn eu hymyl.

“Beth maen nhw’n ei ddweud?” gofynnodd Mr Defis.

“Wel,” atebodd Ffion. “Mae braidd yn anodd deall draenogod pan fydd eu cegau’n llawn bwyd. Ond rwy’n credu eu bod yn dweud diolch am y bwyd ci.”

“Gallwn i feddwl hynny hefyd,” meddai Mr Defis. “Talais i lawer o arian am y tun yna. Allet ti ddysgu iddyn nhw siarad pan na fydd eu cegau’n llawn? Mae’n arfer hyll iawn.”

“Fe wnaif fy ngorau glas,” cytunodd Ffion.

Edrychodd ar y draenogod a gwenu.

Ac roedd hi’n siwr eu bod wedi gwenu’n ôl.



Am yr awdur

Cefais fy ngeni yn Llundain ym 1950 a nawr rwy'n byw ger y môr, yn Ramsgate. Gyda'r nos rwy'n hoffi ysgrifennu storïau a barddoniaeth. Rwy'n gwneud hyn yn dawel iawn. Yna rwy'n mynd i lawr y grisiau ac yn chwarae recordiau jazz yn uchel iawn. Mae fy nheulu yn meddwl fy mod yn gwneud dau beth gwirion iawn. Un yw mynd allan i'r ardd bob nos i chwilio am frogaod, madfallod y dŵr a draenogod. Y llall yw cefnogi Clwb Pêl-droed Gillingham.



Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 11:

Fflaniau'n Fflïo gan Nick Warburton

Anodd eu Plesio gan Nick Warburton

Siwt Syr gan Nick Warburton

Ffion a'r Draenogod gan John Coldwell

Clustiau Rhyseddol Owen Bowen gan David Cox ac Erica James

Cynllun Cyfrwys Sara gan John Coldwell

Esgidiau Ymarfer Peryglus gan Susan Gates

Ieu a Dei ar Waith gan Nick Warburton

Cewri Carys gan Nick Warburton

Cyfle Mawr Manon gan John Coldwell



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 11

FFION a'r draenogod

“Rwy’n mynd i fod yn arbenigwr ar
ddraenogod,” meddai Ffion wrth ei mam.

Wrth iddi chwilio am ffeithiau am
ddraenogod yn y llyfrgell mae’n dysgu
cyfrinach wych amdany’n nhw. Ond pam
mae Mr Defis diflas drws nesaf yn talu
cymaint o sylw?



ISBN 0-86174-449-7



9 780861 744497

ISBN 0 86174 449 7

DRAKE